

CYNNWYS

1. Rhagarweiniad
2. Manylion Cyswllt
3. Disgrifiadau o Safleoedd yr Ŵyl a Chyflwr Eu Tiroedd
4. Cyfleusterau Mynediad y Gellir Eu Harchebu
5. Y Broses Archebu
6. What3Words - Cynllunio Eich Taith
7. Canllaw Teithio
8. Cyfleusterau Mynediad Eraill
9. Goleuadau Strob
10. Attitude is Everything / Agwedd Yw Popeth

1. RHAGARWEINIAD

Ein nod yw gwneud yn siŵr bod Gŵyl Undod yn gwbl hygyrch i unrhyw un sy'n dymuno mynychu. Rydym yn gweithio'n agos gydag Attitude is Everything (Agwedd yw Popeth), elusen sy'n gwella mynediad pobl anabl i ddigwyddiadau byw.



2. MANYLION CYSWLLT

Ellis Wrightbrook yw Uwch Gynhyrchydd Hijinx ac ef yw'r Rheolwr Mynediad yn ystod Gŵyl Undod. Gan nad ydym yn rhedeg ein safle gŵyl ein hunain, rydym yn dewis lleoliad partner sy'n gallu cynnig darpariaeth mynediad o safon ac a fydd, yn fwy na thebyg, mewn lle da i ateb unrhyw gwestiynau sydd gyda chi.

Porters:

- **Ffurflen gyswllt:** <http://www.porterscardiff.com/contact/>
- **Trwy e-bost:** info@porterscardiff.com
- **Cyfeiriad:** Porters, Cwrt Harlech, Teras Bute, CF10 2FE
- [///fumes.sheep.translated](http://fumes.sheep.translated)



Canolfan Gelfyddydau Chapter:

- **TUDALEN 'MYNEDIAD':** <https://www.chapter.org/visit/access/>
- **Dros y ffôn:** 029 2031 1050
- **Trwy e-bost:** enquiry@chapter.org
- **Cyfeiriad:** Chapter, Heol y Farchnad, Treganna, Caerdydd, CF5 1QE
- [///apron.smashes.limes](http://apron.smashes.limes)



Canolfan Mileniwm Cymru:

- **TUDALEN 'MYNEDIAD':** <https://www.wmc.org.uk/en/your-visit/facilities-and-access>
- **Dros y ffôn:** 029 2063 6464
- **Trwy e-bost:** tickets@wmc.org.uk
- **Sgwrs ar y we:** Cliciwch y blwch oren 'Allwn Ni Helpu?' ar eu gwefan (ar gael Llun – Gwener 10am – 5pm, Sad 12pm – 5pm)
- **Cyfeiriad:** Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL
- [///frogs.notes.locate](http://frogs.notes.locate)



(Delwedd: grahamwell / Graham Flickr)

Neuadd Dewi Sant:

- **TUDALEN 'MYNEDIAD':** <https://www.stdavidshallcardiff.co.uk/your-visit/access/>
- **Dros y ffôn:** 02920 878444
- **Trwy e-bost:** St.DavidsHallReception@cardiff.gov.uk
- **Cyfeiriad:** Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd CF10 1AH
 - [///shape.safety.vase](http://shape.safety.vase)



Canolfan Celfyddydau Pontio:

- **TUDALEN 'MYNEDIAD':** https://www.pontio.co.uk/Online/default.asp?doWork::WScontent::loadArticle=Load&BOParam::WScontent::loadArticle::article_id=3A3DCE02-6D60-4959-9264-FD15FF998A14&menu_id=83DA1F08-BB2D-4DCC-9DAA-6B9A575341C1
- **Dros y ffôn:** 01248 382828
- **Trwy e-bost:** info@pontio.co.uk
- **Cyfeiriad:** Pontio, Prifysgol Bangor, Ffordd Deiniol Bangor, Bangor, LL57 2TQ



(Delwedd: Prifysgol Bangor)

Ffwrnes:

- **TUDALEN 'MYNEDIAD'**: <https://www.theatrausirgar.co.uk/en/your-visit/ffwrnes/access>
- **Dros y ffôn:** 0345 2263510
- **Trwy e-bost:** theatres@carmarthenshire.gov.uk
- **Cyfeiriad:** Ffwrnes, Stryd y Parc, Llanelli, SA15 3YE



Os oes angen cymorth neu wybodaeth arnoch nad oes modd dod o hyd iddi naill ai drwy gysylltu â'r lleoliad perthnasol neu ymweld â'u tudalen we, gallwch gysylltu ag Ellis:

Dros y ffôn: Os ydych yn fodlon i Ellis eich ffonio yn ôl o fewn 24 awr, ffoniwch 07521051417 os gwelwch yn dda, a gadewch neges llais gyda'ch enw, rhif cyswllt a

chrynodeb o'r ymholiad ynglŷn â mynediad. Sylwch, os gwelwch yn dda, mai gwasanaeth galw'n ôl yw hwn ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â mynediad yn unig.

Trwy e-bost: Gallwch hefyd anfon e-bost at info@hijinx.org.uk; nodwch y gallai gymryd hyd at 48 awr i ymateb

Trwy'r post: At Sylw Ellis Wrightbrook, *Hijinx*, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL. Sylwch, os gwelwch yn dda, mai dyma'r dull cyfathrebu arafaf, gan nad yw *Hijinx* yn gweithio'n llawn amser o'r swyddfa ar hyn o bryd, a gall ymateb gymryd hyd at 14 diwrnod.

3. DISGRIFIADAU O SAFLEOEDD YR WŶL A CHYFLWR EU TIROEDD

Cynhelir Gŵyl Undod Hijinx 2022 mewn 7 lleoliad yng Nghymru:

Porters (Caerdydd):

- Mae pob digwyddiad yn y lleoliad hwn AM DDIM ac YN DDI-DOCYN
- Mae'r lleoliad hwn yn far sy'n gweithio, a bydd y gynulleidfa'n eistedd wrth fyrddau

Chapter (Caerdydd):

- Mae angen TOCYNNAU i bob digwyddiad yn y lleoliad hwn
- Mae caffi prysur yng nghanol yr adeilad hwn, a gall fod yn swnllyd weithiau
- Bydd digwyddiadau yn cael eu cynnal yn un o sgriniau'r sinema (dan do) ac mae'n bosibl cael mynediad heb risiau i'r lleoliad hwn.

Canolfan Mileniwm Cymru (Caerdydd):

- Mae angen TOCYNNAU ar gyfer rhai digwyddiadau yn y lleoliad hwn, ac mae digwyddiadau eraill AM DDIM
- Mae hwn yn adeilad mawr ac yn gyrchfan twristiaid, felly gall fod yn brysur weithiau
- Yn ystod yr ŵyl hon, bydd digwyddiad chwaraeon hefyd yn cael ei gynnal yn y cyffiniau, felly gallwch ddisgwyl torfeydd
- Bydd y perfformiadau â thocyn yn cael eu cynnal yn Stiwdio Weston

- Bydd y digwyddiadau rhad ac am ddim yn cael eu cynnal y tu allan i'r adeilad yn ogystal â'r tu mewn, yng nghyntedd Glanfa.
- Os bydd y tywydd yn wlyb, bydd pob perfformiad yn cael ei adleoli i gyntedd Glanfa.

Yr Aes (Caerdydd):

- Mae pob digwyddiad yn y lleoliad hwn AM DDIM ac YN DDI-DOCYN
- Mae hwn yn lleoliad yng Nghanol y Ddinas, ac mae pob llwyfan yn yr awyr agored
- Os yw'n heulog, gellir dod o hyd i gysgod dan goed neu ganopiâu siopau wrth ymyl pob llwyfan
- Mewn tywydd gwlyb eithafol, bydd y perfformiadau'n cael eu canslo

Mae 3 llwyfan:

- Tu allan i'r Llyfrgell Ganolog ([///speaks.rock.dreams](http://speaks.rock.dreams))
- Gyferbyn â Chapel y Tabernacl a 'Giovanni's' ([///teach.herb.moment](http://teach.herb.moment))
- Rhwng 'Boss' a 'Miller & Carter' ([///shrimp.ready.deed](http://shrimp.ready.deed))

Neuadd Dewi Sant (Caerdydd):

- Mae pob digwyddiad yn y lleoliad hwn AM DDIM ac YN DDI-DOCYN
- Bydd perfformiadau'n cael eu cynnal yn y cyntedd, dan do, yn union wrth ymyl y fynedfa flaen

Canolfan Celfyddydau Pontio (Bangor):

- Mae hwn yn adeilad sy'n eiddo i Brifysgol Bangor, ac yn un cymharol newydd
- Mae'r wyl yn digwydd yn ystod gwyliau academiaidd, felly bydd nifer yr ymwelwyr yn is nag arfer
- Mae un digwyddiad Â THOCYN yn digwydd yn theatr Bryn Terfel
- Mae'r digwyddiadau eraill AM DDIM ac YN DDI-DOCYN, a byddant yn cael eu cynnal yn y ganolfan ac o'i chwmpas. Dilynwch arwyddion yr wyl.
- Dim ond un llwyfan sydd yn yr awyr agored ac ar laswellt. Bydd arwyddion i lwyfan arall yn cael eu harddangos os daw tywydd gwlyb, neu fel arall mae'n ardal wastad gyda dim ond llethr bach o'r tu mewn i'r lleoliad i'r ardal laswellt.

Ffwrnes (Llanelli):

- Mae'r adeilad hwn wedi'i leoli ychydig y tu allan i ganol y dref, felly disgwylwch gerddwyr ar y ffordd trwodd
- Mae un digwyddiad Â THOCYN yn digwydd yn theatr y Prif Dŷ
- Mae digwyddiadau eraill AM DDIM a DI-DOCYN yn cael eu cynnal yn y ganolfan ac o'i chwmpas. Dilynwch arwyddion yr ŵyl i'r lleoliadau hyn.

Mae mynedfeydd safle ym mhob lleoliad wedi'u lleoli ar hyd llwybrau llawr caled, gwastad a cheir mynediad iddyn nhw naill ai drwy ddrysau awtomatig, neu ddrysau sy'n cael eu cadw ar agor gan dywyswyr/gwirfoddolwyr. Lle mae gan leoliad sawl llwyfan, mae'r rhain i gyd o fewn 500m i'w gilydd a gellir cael mynediad heb risiau iddyn nhw.

Gall y tywydd effeithio'n sylweddol ar ba mor hawdd yw hi i bobl deithio i/o leoliadau gŵyl; a fydddech mor garedig â chymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu pa offer i ddod gyda chi, os gwelwch yn dda.

4. CYFLEUSTERAU MYNEDIAD Y GELLIR EU HARCHEBU

Dim ond pan archebir ymlaen llaw y mae rhai o'r cyfleusterau canlynol ar gael, a hynny'n amodol ar argaeledd.

Mannau Gwyllo Lefel y Ddaear ar gyfer y llwyfannau THEATR STRYD:

Mae hon yn ardal galed, wastad ar gyfer mynychwyr ag anabledau sydd angen ardal lai gorlawn a/neu'r opsiwn o eistedd am gyfnodau byr o amser, gyda Chynorthwy-ydd Personol os oes angen. Bydd gwirfoddolwr yr ŵyl, sy'n gwisgo crys-t oren llachar, yn dal arwydd 'lolipop' i nodi'r ardal wyllo ym mhob lleoliad. Er ein bod yn ymdrechu i ddarparu'r llinell weld orau i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn, ni allwn warantu y bydd hon yn olwg anghyfyngedig.

Nid oes angen prawf o anabled i ddefnyddio'r ardal hon, dim ond cyflwyno'ch hun i'r gwirfoddolwr sydd angen, fel y disgrifiwyd yn flaenorol.

Seddi hygyrch ar gyfer y digwyddiadau Â THOCYN:

Ym mhob lleoliad, cynhelir y digwyddiadau â thocyn mewn theatr stiwdio gyda seddi ar ogwydd. Os oes angen lle i gadair olwyn arnoch, y cyntaf i'r felin yw'r manau hyn yn aml ac mae angen i chi ofyn am hyn wrth archebu. Nid oes unrhyw ddewis arall o ran seddi hygyrch, ond os oes rhywbeth y gall Gŵyl Undod ei wneud i ddarparu ar eich cyfer yn ystod eich ymweliad ag un o'n perfformiadau â thocyn, anfonwch eich atodiad mynediad at: info@hijinx.org.uk gan gynnwys y dyddiad, amser a lleoliad y perfformiad rydych wedi archebu tocyn ar ei gyfer. Dyma enghreifftiau o addasiadau rydym wedi'u gwneud yn y gorffennol (heb fod yn gyflawn): darparu mat clustog i wyllo'r perfformiad o

safle gorwedd, cyhoeddiad cyn sioe i hysbysu aelodau eraill o'r gynulleidfa bod yna fynychwyr all wneud synau anwirfoddol, nodiadau o unrhyw 'sbardunau' penodol y mae mynychwr eisiau bod yn ymwybodol ohonynt h.y. hyd yr amser o ddechrau'r perfformiad cyn i sŵn uchel ddigwydd, disgrifiadau o unrhyw themâu aeddfed, cipluniau o'r actorion ochr yn ochr â disgrifiadau o'u gwisgoedd.

5. Y BROSES ARCHEBU

Mae pob perfformiad â thocyn yn rhan o gynllun *Hynt*. Os oes angen cefnogaeth neu gymorth arnoch i fynychu perfformiad mewn theatr neu ganolfan gelfyddydol yna efallai y byddwch yn gymwys i ymuno â *Hynt*, fydd yn darparu tocynnau am ddim i gynifer o ofalwyr/cymdeithion ag rydych chi'n gymwys i'w cael.

Sylwch, os gwelwch yn dda, nid yw Gŵyl Undod yn gweinyddu cynllun *Hynt*. Fe'i rheolir gan *Creu Cymru* mewn partneriaeth â *Diverse Cymru* a dylid cyfeirio pob ymholiad at info@hynt.co.uk

Darllenwch fwy am y cynllun yma: <https://www.hynt.co.uk/cy/>

Gallwch wneud cais ar-lein yma: <https://www.hynt.co.uk/cy/ymunwch/apply/ffurflen-gais/>

Gallwch lawrlwytho ffurflen gais yma: **PDF**

https://www.hynt.co.uk/files/3814/2713/1156/Hynt_application_form_v5.pdf

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn 'cerdyn *Hynt*', sef eich llun adnabod a phrawf o'ch cymhwysedd. Dim ond o'r swyddfa docynnau ar ddiwrnod y perfformiad y gellir casglu tocynnau sy'n cael eu prynu gan ddefnyddio cerdyn *Hynt*, a bydd angen i chi ddangos eich cerdyn i aelod o dîm y swyddfa docynnau.

PRAWF DILYS O ANABLEDD WRTH GYFLWYNO CAIS I HYNNT

Fel rhan o broses cyflwyno cais i *Hynt*, bydd angen i chi gynnwys tystiolaeth sy'n dangos eich bod chi neu'r person rydych yn cwblhau'r cais ar ei ran/rhan yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd:

- Elfen Byw Bob Dydd Taliad Annibyniaeth Personol (*PIP*) Uwch neu Safonol
- Cyfradd Uchel neu Ganolig Elfen Ofal Lwfans Byw yr Anabl
- Lwfans Gweini Cyfradd Uchel
- Tystysgrif Nam ar y Golwg
- Pensiwn Anabledd Rhyfel
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (*AFIP*)
- Taliadau Uniongyrchol

- Pecyn Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol
- Pecyn Gofal Iechyd Parhaus
- Nam Synhwyrdd Deuol

Bydd angen i *Hynt* weld copi o *un* o'r dogfennau canlynol:

- Llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cadarnhau eich bod chi neu'r person rydych yn gwneud cais ar ei ran/rhan yn derbyn un o'r budd-daliadau a restrir yn y meini prawf
- Llythyr gan yr Awdurdod Lleol perthnasol yn cadarnhau eich bod chi neu'r person yr ydych yn gwneud cais a rei ran/rhan yn derbyn Pecyn Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol, Pecyn Gofal Iechyd Parhaus neu wedi cofrestru ar gyfer Taliadau Uniongyrchol
- Tystysgrif Nam ar y Golwg

6. WHAT3WORDS – CYNLLUNIO EICH TAITH

Mae lleoliadau ein digwyddiadau yng nghanol dinasoedd a thref yn golygu eu bod yn cael eu gwasanaethu'n dda gan rwydweithiau trafndiaeth gyhoeddus ac fel rhan o'n cynllun cynaliadwyedd rydym yn eich annog i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle bo modd neu gerdded hyd yn oed.

Fe sylwch fod pob lleoliad ar ein map, ac mewn disgrifiadau uchod, yn cynnwys rhywbeth sy'n edrych fel hyn **///onion.bright.ripe**. Dyma gôd *what3words*, ac mae'n offeryn rydym yn eich annog i'w ddefnyddio wrth gynllunio'ch taith i'r Wyl Undod. Nid yw cyfeiriadau stryd yn ddigon manwl gywir i nodi union lleoliadau, fel mynedfeydd adeiladau, ac nid ydynt yn bodoli ar gyfer parciau a llawer o ardaloedd gwledig. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i leoedd ac yn ein rhwystro rhag disgrifio'n union lle mae angen i chi fod i fwynhau Gŵyl Undod.

Gallwch naill ai lawrlwytho ap rhad ac am ddim trwy chwilio 'what3words' yn eich *Appstore*, neu ddefnyddio fersiwn sy'n seiliedig ar borwr yn www.what3words.com. Yma gallwch fewnbynnu'r côd tri gair a bydd yn eich helpu i lywio a chynllunio'ch ffordd i'r lleoliad.

7. CANLLAW TEITHIO

Nid yw'r Wyl Undod yn gweithredu unrhyw gyfleusterau parcio ceir, ond isod ceir rhestr o'r lleoedd parcio mwyaf cyfleus ym mhob lleoliad, gyda phob un ohonynt yn cynnwys manau parcio bathodyn glas, ochr yn ochr â'r cyswllt trafndiaeth gyhoeddus agosaf.

Canolfan Gelfyddydau Chapter:

- Ar fws - Gallwch ddal bysiau rhif 17, 18 yn uniongyrchol (safle Canolfan Celfyddydau Chapter) bob 5 munud o Ganol Caerdydd.
- Parcio: Maes parcio am ddim y tu ôl i'r adeilad gyda chwe lle parcio wedi'u dynodi ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas.

Canolfan Mileniwm Cymru:

- Ar drên: Mae gorsaf Heol y Frenhines Caerdydd i Fae Caerdydd yn rhedeg bob 12 munud ac yn cymryd llai na 5 munud.
- Parcio: Mae *Q-Park* Bae Caerdydd gyferbyn â Chanolfan Mileniwm Cymru ar Stryd Pierhead ac mae ar agor 24 awr y dydd, defnyddiwch CF10 4PH i lywio i'r cyfeiriad cywir.

I gyrraedd Porters, Neuadd Dewi Sant a'r Aes:

- Ar drên: Tua 5 munud ar droed o Ganol Caerdydd a Heol y Frenhines
- Parcio: Parcio i'r anabl ar Lefel 3 yng Nghanolfan Dewi Sant ac ym maes parcio *John Lewis*. Gall mynychwyr hefyd gael eu gollwng / casglu yn Stryd Wharton, tua 100m o'r Aes a Neuadd Dewi Sant.

Pontio:

- Ar fws: Yr arhosfan agosaf yw Gorsaf Fysiau Cloc Bangor sydd tua 5 munud ar droed o Pontio.
- Parcio: 11 o leoedd parcio anabl dynodedig; mae parcio am ddim i ddeiliaid bathodynau anabl yn y manau hyn. I gael mynediad i'r maes parcio trowch i fyny Ffordd Glanrafon sydd gerllaw Pontio ac mae'r maes parcio ar gael ar y chwith.

Ffwrnes:

- Ar fws: Mae prif orsaf fysiau Llanelli gerllaw'r Ffwrnes. Mae *National Express* yn gweithredu gwasanaethau i mewn i Lanelli ac mae gwasanaethau bws lleol helaeth ar gael.
- Parcio Arhosiad Byr - Mae parcio tymor byr y codir tâl amdano ym maes parcio *East Gate* rhwng 8yb a 6yh, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Uchafswm arhosiad o 4 awr, a'r tâl ar hyn o bryd yw £2.00. Gellir parcio am ddim dros nos rhwng 6yh ac 8yb a thrwy'r dydd ar ddydd Sul.

- Parcio Arhosiad Hir – Mae dau faes parcio tymor hir sy'n codi tâl o fewn 500 metr i'r Ffwrnes, sef:
 - Maes Parcio Stryd Edgar ger meddygfa *Old Road*. Y cod post ar gyfer y maes parcio hwn yw SA15 3HW.
 - Maes Parcio Stryd yr Eglwys ger Meddygfa Vauxhall (sylwer mai dim ond nifer cyfyngedig o fannau parcio arhosiad hir sydd yma). Y cod post ar gyfer y maes parcio hwn yw SA15 3BD.

8. CYFLEUSTERAU MYNEDIAD ERAILL

Swyddfa Docynnau

Bydd cownter is ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn ar gael yn swyddfa docynnau pob lleoliad a bydd dolenni clyw ar bob un ohonynt.

Rheolwr Mynediad a Gwirfoddolwyr

Ym mhob lleoliad bydd gwirfoddolwr mewn crys-t oren yn gweithio mewn man gwybodaeth. Mae'r holl wybodaeth am fynediad ar y safle h.y. amserau perfformiadau BSL, lleoliad toiledau mynediad, rhaglenni print bras/cyfarwyddiadau ac ati ar gael gan y gwirfoddolwr. Ef/hi yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad gan gwsmeriaid ynghylch mynediad ar y safle.

Dyma hefyd lle gallwch band arddwrn neu fathodyn blodyn haul sy'n dangos i staff yr Ŵyl y gallwch fod angen cymorth yn ystod perfformiadau (e.e. lleoliad seddau/llinellau gweld heb gyfyngiad ac yn y blaen).

Bydd arwydd clir yn dynodi'r Man Gwybodaeth a Chymorth ar y safle a chaiff ei nodi ar fap y digwyddiad. Bydd modd cysylltu â'r Rheolwr Mynediad (Ellis) ar y radio yn ystod y digwyddiad hefyd, os bydd angen cymorth pellach.

Toiledau Hygyrch

Mae toiledau hygyrch ar gael ym mhob lleoliad:

- **Porters** – Llawr Gwaelod: 1 toiled hygyrch i gadeiriau olwyn, gydag arwyddion da
- **Chapter** – Llawr Gwaelod: tri thoiled hygyrch i gadeiriau olwyn, gan gynnwys un sy'n darparu digon o le ac offer i ymwelwyr nad ydynt yn gallu defnyddio'r toiled yn annibynnol. Toiledau pob rhyw yn y caffi bar a thoiledau un rhyw ar hyd coridor y sinema. I fyny'r grisiau, un toiled hygyrch i gadeiriau olwyn a digon o doiledau un rhyw. Mae cyfleusterau newid cewynnau ym mhob toiled hygyrch.
- **Canolfan Mileniwm Cymru** – Llawr gwaelod: toiledau neillryw hygyrch, galluogi symud i'r chwith ac i'r dde, toiled *Changing Places* gyda mainc newid hyd

oedolyn y gellir addasu ei huchder a system teclyn codi tracio. Mae digon o le yn y man newid ar gyfer y person sydd ei angen a hyd at ddau ofalwr, toiled wedi'i leoli'n ganolog gyda lle ar y naill ochr a'r llall.

- **Pontio** - Mae toiledau hygyrch ar gael ar lefelau 0, 1, 3, a 5 yr adeilad ac mae arwyddion arnynt.
- **Ffwrnes** – Mae toiledau hygyrch ar gael ar bob lefel ac mae arwyddion iddynt, fodd bynnag **nid** oes lle newid ar gael yn ystod y digwyddiadau yn Llanelli.
- **Neuadd Dewi Sant** – Mae toiledau hygyrch ar gael ar lefelau 2, 3, 4, a 5 yr adeilad ac mae arwyddion arnynt.
- **Ar gyfer Yr Aes** – Y tu mewn i Ganolfan Siopa Dewi Sant mae cyfleusterau toiled yn *Eastside*, ar y lefelau uchaf a'r rhai isaf. Maent yn cynnwys cyfleusterau newid i deuluoedd a chyfleusterau wedi'u haddasu ar gyfer defnyddwyr anabl, gan gynnwys cyfleuster *Changing Places*.

Pwyntiau gwefru ar gyfer cadeiriau pŵer:

Holwch yn y man gwybodaeth neu yn swyddfa docynnau'r lleoliad am leoliad eich pwynt gwefru agosaf, os gwelwch yn dda.

Cownteri is:

Mae cownteri is y tu mewn i bob lleoliad yn y swyddfa docynnau, bariau, a rhai mannau gwerthu bwyd. Gwneir darpariaethau lle nad oes cownteri is ar gael.

Iaith Arwyddion Prydain (BSL), Capsiynau a Disgrifiadau Sain:

Gallwch weld a lawrlwytho amserlen ein perfformiadau hygyrch dynodedig YMA.

Dolenni Sain:

Mae'r rhain wedi'u lleoli yn y man gwybodaeth ac yn ffenestri Swyddfa Docynnau pob lleoliad ac fe'u nodir gan sticer.

Ardal dawel:

Mae hwn yn ofod y gall pobl ei ddefnyddio pan fydd angen iddyn nhw ddianc o'r dorf am gyfnod. Bydd arwyddion yn dangos y ffordd i'r gofod hwn, ond ewch at y man gwybodaeth os oes angen help arnoch i ddod o hyd iddo.

Anableddau Cudd:

Rydym yn deall nad yw anabledd cudd yn amlwg ar unwaith. Os hoffech gael cymorth neu gyngor cyn mynychu, cysylltwch â ni ymlaen llaw gyda'ch cwestiynau drwy info@hijinx.org.uk. Bydd cyflenwad cyfyngedig o laniardiau anabledd cudd ar gael (am ddim) o'r man gwybodaeth.

Man baeddu ar gyfer cŵn cymorth:

Mae croeso i gŵn cymorth i bob digwyddiad yng ngŵyl Undod *Hijinx*. Os oes angen man baeddu ar gyfer cŵn arnoch ar y safle, e-bostiwch eich cais o fewn 14 diwrnod i'r digwyddiad i info@hijinx.org.uk

9. GOLEUADAU STROB

Yr unig berfformiad yng Ngŵyl Undod 2022 sy'n cynnwys goleuadau strôb yw BOGUMER (perfformiad yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, 20:00, 25 Mehefin). Mae rhybuddion yn ymwneud â sioeau eraill h.y. mwg, iaith anweddus, synau uchel, neu noethni wedi'u hysbysebu'n dda.

10. ATTITUDE IS EVERYTHING / AGWEDD YW POPETH

Mae *Attitude is Everything* yn gwella mynediad pobl Fyddar ac anabl at gerddoriaeth fyw trwy weithio mewn partneriaeth â chynulleidfaedd, artistiaid a'r diwydiant cerddoriaeth.

Ar ôl cychwyn fel prosiect peilot yn 2000, mae *Attitude is Everything* bellach yn elusen gwbl annibynnol ac yn rhan o Bortffolio Sefydliadau Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr. Maent yn annog cynhyrchwyr digwyddiadau i fynd y tu hwnt i'r rhwymedigaethau cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb a gweithredu arfer gorau, gan ddarparu gwasanaeth teg a chyfartal i'w cwsmeriaid Byddar ac anabl.

Mae *Attitude is Everything* yn cefnogi'r diwydiant cerddoriaeth er mwyn deall gofynion mynediad pobl Fyddar a phobl anabl mewn lleoliadau a gwyliau cerddorol trwy gynnwys cydraddoldeb yn y broses strategol gan ddefnyddio Siarter Arfer Gorau. Ethos y Siarter yw y dylai pobl Fyddar ac anabl fod mor annibynnol ag y dymunant fod mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw ac mae dros 100 o leoliadau a gwyliau eisoes wedi ymuno.

www.attitudeiseverything.org.uk

www.twitter.com/attitudetweets

www.facebook.com/attitudeiseverything

Dod yn Siopwr Dirgel dros *Attitude is Everything* / Agwedd yw Popeth

Mae Siarter Arfer Gorau *Attitude is Everything* yn annog hyrwyddwyr lleoliadau byw i ddangos yn gyhoeddus eu hymrwymiad i wella mynediad, a chaiff hyn ei asesu gan dîm cenedlaethol o Siopwyr Cudd.

I ddod yn Siopwr Cudd, gallwch naill ai gofrestru ar-lein [online](#) neu si@attitudeiseverything.org.uk i ofyn am y ffurflenni a mwy o wybodaeth.

